

CYLCHLYTHYR Y RHAGLEN DELWEDDU GENEDLAETHOL



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Rhaglen Delwedd
Genedlaethol
National Imaging
Programme

RHAGFYR 2025



Croeso i pymthegfed rhifyn Cylchlythyr y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol!

Ers y Cylchlythyr blaenorol, cynhaliodd Tîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, ar y cyd â'n cymheiriaid yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru, drydedd Gynhadledd Flynyddol y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol llwyddiannus iawn (gweler tudalen 2 am ragor o wybodaeth). Ar ben hynny, mae Emily wedi bod yn gweithio'n galed ar lansio ein gwefan SharePoint newydd, a fydd yn gweithredu fel hwb ar gyfer gwybodaeth a dogfennaeth wrth edrych tua'r dyfodol. Yn olaf, fel y gallech fod wedi sylwi, rydym hefyd wedi creu dyluniad Cylchlythyr newydd a gwell, nid yn unig i fod (gobeithio!) yn fwy deniadol i'r llygad, ond i gadw ein diweddariadau'n fwy cryno ac yn haws i'w darllen.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r Cylchlythyr. Os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr gylchredeg, neu os oes gennych adborth ynghylch ein dyluniad newydd, anfonwch e-bost at NHSPI.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk

Uchafbwyntiau

- NIPAC Cynhadledd
- Lansio SharePoint
- Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio mewn Delweddu
- Prosiect Offer Delweddu a Blaenoriaethau Cyfalaf Cenedlaethol (PODCC)
- Lleihau DNA mewn Radioleg





Cynhadledd Flynyddol y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol

Ddydd Gwener 7 Tachwedd, cynhaliwyd 3ydd Gynhadledd Flynyddol y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru. Bu'n llwyddiant ysgubol, a daeth ag arbenigwyr ac arloeswyr o bob cwr o'r sector ynghyd. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd sgysiau gan Dr Steve Cross, a gyflwynodd sesiwn ddiddorol a chraff a roddodd egni i'r rhai a oedd yn bresennol. Amlygodd y potensial o ddod â gweithwyr proffesiynol delweddu i lygad y cyhoedd i ddangos y gwaith rhagorol sy'n digwydd. Dangosodd Sefydliad Calon y Ddraig bwysigrwydd annog sut y gall arweinyddiaeth ddod o bob lefel. Yn olaf, stori feddylgar Gill Lingwood ein hunain am ei thaith fel ymchwilydd am y tro cyntaf.



Gyda'i gilydd, creodd yr uchafbwyntiau hyn gynhadledd flaengar a adawodd y cyfranogwyr yn frwdfrydig ac yn gyffrous am ddyfodol mentrau delweddu cenedlaethol. Hoffai'r Rhaglen Wella Genedlaethol ddiolch i bawb a oedd yn bresennol yn y gynhadledd a gobeithir eich gweld chi gyd eto'r flwyddyn nesaf!





GIG
CYMRU
NHS
WALES

SharePoint

Mae'r Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol wrth ei bodd yn lansio ein gwefan SharePoint newydd ar gyfer GIG Cymru. Mae'r dudalen ar gael i unigolion sydd â chyfeiriad e-bost GIG Cymru ac fe'i lansir i ddechrau gyda'r wybodaeth a'r adnoddau a restrir ar y dde:

Rhowch wybod i ni pa wybodaeth yr hoffech ei gweld ar y dudalen hon a bydd y tîm yn ystyried eich syniadau wrth barhau i adeiladu a datblygu'r wefan. Rydym yn ddiolchgar am eich adborth! Gallwch ddod o hyd i'n tudalen newydd [yma](#)



SharePoint Lansio

- **Tudalen Adnoddau** – Yma gallwch ddod o hyd i doreth o adnoddau gan gynnwys swydd-ddisgrifiadau swyddi agenda radioleg genedlaethol ar gyfer newid, dogfennau canllaw cenedlaethol fel y 'Canllawiau ar gyfer caffael Cyfarpar Diogelu Personol ymbelydredd', a dolenni defnyddiol i sefydliadau ac adnoddau perthnasol allanol Cylchlythyrau – Catalog o'n holl rifynnau Cylchlythyr.
- **Cynhadledd Flynyddol** – Yma gallwch ddod o hyd i wybodaeth am Gynhadledd Flynyddol y Rhaglen sy'n cynnwys manylion am agendâu a noddwyr y gorffennol.
- **Safonau Ansawdd ar gyfer Delweddu (QSI)** – Gwybodaeth am y Marc Ansawdd QSI gan gynnwys dolenni i wefan RCR, y Safonau Ansawdd llawn a'r offeryn Datblygu a Chymorth. Bydd y dudalen hon yn cael ei defnyddio i gynnal tystiolaeth ategol y cytunwyd arni'n genedlaethol megis canllawiau a dogfennau proses

Cynaliadwyedd a Datgarboneiddi o mewn Delweddu

Sesiwn Gwersi a Ddysgwyd RISP

Y chwarter hwn, yn dilyn y System Gwybodeg Radioleg newydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynd yn fyw, cynhaliodd Fforwm Ansawdd Delweddu Cymru Gyfan sesiwn gwersi a ddysgwyd. Yn y sesiwn, rhannodd cydweithwyr o Betsi Cadwaladr eu profiad o'r lansiad gan gynnwys problemau cychwynnol ac atebasant gwestiynau gan fyrddau iechyd eraill. Byddwn yn cynnal sesiwn debyg gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Gobeithiwn fod y sesiwn wedi rhoi cipolwg defnyddiol i'r byrddau iechyd sydd heb fynd yn fyw eto ac rydym yn dymuno'r gorau i bawb wrth ei roi ar waith!

In Mewn rhifyn blaenorol o'r cylchlythyr, fe wnaethon ni rannu rhai syniadau ar sut i fod yn fwy gwyrdd gartref. Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu rhai syniadau ar sut mae arbed ynni yn y gweithle!

Mentrau sy'n seiliedig ar waith i arbed ynni:

- Gweithio o bell – arbedion ar allyriadau teithio
- Teithio gwyrdd – beicio i'r gwaith neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle y bo modd
- Defnyddio codau QR yn lle argraffu e.e. ar gyfer arolygon cleifion
- Diddymu Cyfarpar Diogelu Personol diangen yn raddol – gweler yr ymgyrch 'Menig i Ffwrdd'
- Synwryddion goleuadau/symudiad sy'n effeithlon o ran ynni
- Gwahanu gwastraff yn gywir
- Taflenni gwybodaeth digidol i gleifion a gwybodaeth rhyddhau
- Lleihau defnydd o bapur – ac os oes angen i chi argraffu, defnyddio papur wedi'i ailgylchu, papur dwy ochr ac argraffu mewn du a gwyn
- Defnyddio menig wedi'u gorchuddio â phowdr
- Dyfeisiau llif isel ar dapiau dŵr/toiledau
- Penodi 'hyrwyddwr gwyrdd' adrannol neu wneud addewid adrannol



Prosiect Offer Delweddu a Blaenoriaeth au Cyfalaf Cenedlaethol

Lleihau DNA mewn Radioleg

Yn ddiweddar, rydym wedi ymgymryd â darn o waith i ddeall prosesau archebu cyfredol a sut mae cleifion sydd ddim yn mynychu (DNAs) yn cael eu rheoli mewn adrannau Radioleg ar draws GIG Cymru. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi'i chyflwyno i'r Grŵp Strategol a Gweithredol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd (PCSOG) a'r Grŵp Llywio Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol (NIPSG). Rydym wedi cael cymeradwyaeth i sefydlu 'Gweithgor Lleihau DNA mewn Radioleg'.

Bydd y grŵp yn gweithio ar y cyd i ddeall achosion sylfaenol, rhannu arferion gorau, ac argymhell gwelliannau cynaliadwy sy'n gwella ymgysylltiad cleifion ac effeithlonrwydd gwasanaethau. Mae cyfle mawr iawn i wireddu amrywiaeth o fuddion, sy'n cynnwys: optimeiddio defnyddio adnoddau, lleihau rhestrau aros ac arbedion cost o lai o apwyntiadau gwastraffus. Mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 14 Ionawr 2026. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag aelodau a rhannu diweddariadau pellach!

Aeth Arweinwyr Meddygaeth Niwclear (NM) a Dexa (DXA) i gyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 17 Tachwedd er mwyn adolygu proses NIECP a chytuno ar ddiweddariadau angenrheidiol i ddod â'r ddau ddull i'r cwmpas yn llawn. Rydym yn falch o gadarnhau y bydd y chweched fersiwn, sy'n dechrau yng Ngwanwyn 2026, yn cynnwys yr holl offer NM a DXA yn ffurfiol.

